

Sul Heddwch

Darllen: Luc 13:1–5

Sonnir yn yr adran hon o Efengyl Luc am ddau drychineb, a gallwn ninnau ddwyn i gof sawl trychineb sydd wedi digwydd yn ein cyfnod ein hunain. A'r cwestiwn yn ddi-feth yw, 'pam nad ydi Duw, sy'n gariad ac yn Dad, yn atal y fath arswyd?' Ac y mae'n gwestiwn digon teg i'w ofyn. Ydi Duw'n gyfrifol am y trychinebau hyn, ac ai ffordd Duw o gosbi pechod ydynt? Na, meddai'r Efengyl, mae Duw'n peri i'w haul godi ar y drwg a'r da ac y mae'n glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.

Gofynnwn i ddechrau, beth yw trychineb? Mae miliynau'n cael eu lladd mewn rhyfeloedd a therfysgoedd. Ond trychineb i bwy yw hyn? Meddylwch am ffrwydriaid mewn anialwch neu ar blaned arall. Dydi hwn ddim yn drychineb gan nad oes neb yno. Mae a wnelo trychineb â bywydau pobl. Rwy'n cofio eistedd yn y car yn disgwyl am griw o blant ysgol, a dyma droi'r radio ymlaen i wrando ar newyddion un o'r gloch. A dyma'r cyflwynydd, yn y penawdau, yn dweud fod tri wedi eu lladd mewn damwain car. O, trist iawn, meddwn wrth fy hun. Ond yng nghorff y bwletin, aeth ymlaen i enwi'r tri. Cymylodd y ffurfafen gan fy mod yn adnabod un ohonyn nhw'n dda. Cysylltiad personol ydi sail profedigaeth a gwynfyd. Nid oes gan yr un ohonom gysylltiad â phob un mewn damwain neu ryfel. Ond Tad ydi Duw a chanddo gysylltiad â phob un o'i blant, ac felly mae pob trychineb, damwain a rhyfel yn loes i Dduw. A dyma ddod at ddwy elfen bwysig am Dduw, sef gallu Duw a chymeriad Duw. Soniwn a gweddiwn yn aml ar Dduw Hollalluog. Ond fel ninnau, fe'i cyfyngir gan ei ddeddfau ei hun. Mae Duw yn gofyn i ni fyw'r bywyd llawn oddi mewn i ddeddfau'r cread. Mae Duw ei hun dan yr un amodau â ninnau. Roedd Iesu ei hun yn byw ac yn gweithredu o fewn deddfau moesol a deddfau'r cread. Felly, mae cymeriad Duw yn gweithio oddi mewn i'r deddfau hyn.

Mae Duw wedi ceisio dangos i ni, ym mywyd a gweinidogaeth Iesu, y ffordd i fyw. Rhoddodd Iesu batrwm i ni yn y Bregeth ar y Mynydd, a thrwy gydol ei fywyd dangosodd i ni'r ffordd ragorach fyth. Yn yr Hen Destament, anfonodd Duw ei broffwydi i geisio argyhoeddi'r genedl o'u pechod a dangos y ffordd i gael bywyd llawn. Gwrthod gwranddo fu eu hanes. A dyna hanes y ddynolryw drwy'r oesoedd: anwybyddu a gwrthod ffordd Duw. Myn Tegla Davies yn un o'i bregethau fod Iesu wedi dod i'r byd i geisio dileu dau elyn sef anwybodaeth a phechod, 'Pob trychineb a fu, y sydd neu a fydd,' meddai, 'fe gyfyd naill ai o'n hanwybodaeth neu o'n pechod. Bu Iesu Grist farw ar Galfaria dros bechod y byd a hefyd dros ei anwybodaeth. "A nyny eto'n bechaduriaid, i Grist farw drosom ni" - dyna farw dros bechod. "O! Dad, maddau iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur" – dyna farw dros anwybodaeth, ac ni sonnir fod dim arall i farw drosto.'

Arglwydd, gwna ni'n gyfryngau dy dangnefedd.
 I hau cariad lle bo casineb,
 I faddau lle bo cam,
 I uno lle bo ysgar,
 I blannu ffydd lle bo amheuon
 A gobaith lle bo digalondid,
 I hau goleuni lle bo tywyllwch
 A llawenydd lle bo tristwch,
 Er mwyn dy drugaredd a'th wirionedd. (Sant Ignatius)

Myfyrdod pellach:

Pa ddiben sydd i wasanaethau Sul y Cadoediad?

Yn hytrach na gorymdeithio, oni ddylem arddangos edifeirwch ar y Sul hwn?